**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rasio Ceffylau yng Nghymru – Cyfarfod Cyntaf – 8 Rhagfyr 2021 – 12:00**

Yn bresennol

Aelodau – Alun Davies AS (Llafur), Gareth L Davies AS (Ceidwadwyr), James Evans AS (Ceidwadwyr), Peter Fox AS (Ceidwadwyr), Llyr Gruffydd AS (Plaid Cymru), Joel James AS (Ceidwadwyr), Samuel Kurtz AS (Ceidwadwyr), Sam Rowlands AS (Ceidwadwyr), Ken Skates AS (Llafur)

Staff y Senedd – Carys Lewis (Llyr Gruffydd), Lee Gonzales (Joel James)

Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain – Julie Harrington (Prif Weithredwr), Jack Barton (Swyddog Gweithredol Materion Cyhoeddus)

Ethol Cadeirydd

Cafodd y cynnig i benodi Llyr Gruffydd MS yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ei gefnogi gan yr holl Aelodau.

Ethol Ysgrifenyddiaeth

Cafodd y cynnig i benodi Jack Barton o Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain yn Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ei gefnogi gan yr holl Aelodau.

Diben y grŵp

Cytunodd yr holl Aelodau mai diben y grŵp fydd *'Cefnogi a hyrwyddo'r diwydiannau rasio ceffylau a cheffylau o waed pur yng Nghymru'.*

Cyflwyniad i rasio ceffylau gan Julie Harrington

Dechreuodd Julie Harrington drwy ddiolch i'r Aelodau am y cyfle i siarad â nhw ac am eu cefnogaeth i rasio yng Nghymru, cyn treulio oddeutu 35 munud yn rhoi cyflwyniad i rasio a oedd yn cyffwrdd ar y materion a ganlyn:

- ystadegau ynghylch maint y diwydiant a'i effaith economaidd;
- manylion am strwythur a threfniadau llywodraethu'r diwydiant rasio ceffylau;
- yr heriau allweddol sy'n wynebu'r diwydiant (gan gynnwys yr ardoll betio ar rasys ceffylau, yr adolygiad o'r Ddeddf gamblo, ardrethi busnes) ledled Prydain ac yng Nghymru yn benodol; ac
- amserlen ddrafft y Grŵp Trawsbleidiol yn 2022;

Yn ystod ei chyflwyniad, nododd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn rhannu copi o'r cyflwyniad a chopi o strategaeth y Bwrdd Lles Ceffylau, sef *'A life well lived'*, ag aelodau'r grŵp trawsbleidiol, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am ddatblygiadau ynghylch yr ymgynghoriad y mae'r awdurdod yn ei gynnal ar ddefnyddio'r chwip mewn rasys ym Mhrydain.

Sesiwn hawl i holi

Gofynnodd Sam Rowlands AS a yw Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain yn rheoleiddio rasio harnais yng Nghymru ar hyn o bryd ai peidio, ac a allai rasio harnais fod yn rhan o'r gwaith o lunio brand 'Rasio Cymru'.

Atebodd Julie Harrington drwy nodi nad yw Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain yn llywyddu dros rasio harnais yng Nghymru ar hyn o bryd, nac yn rheoleiddio'r rasys hyn, ac nid oes perthynas rhwng yr awdurdod a chorff llywodraethu rasio harnais yng Nghymru. Yn ystod ei chyfnod fel rheolwr cae rasio Cas-gwent pan oedd yn gweithio i Northern Racing, nododd fod y gymuned rasio harnais wedi cael gwahoddiad i ddigwyddiad prawf ar y cae rasio hwnnw. Fodd bynnag,

penderfynwyd yn y pen draw, am resymau bioddiogelwch - hynny yw, bod y rhan fwyaf o'r ceffylau yn y gymuned rasio harnais ddim o waed pur - i beidio â mynd ymhellach na chynnal digwyddiad peilot.

Bu'n rhaid i Joel James AS a James Evans AS adael y cyfarfod ar y pwynt hwn.

Gofynnodd Gareth L Davies AS gwestiwn am y camau rheoleiddio llym a gymerir mewn perthynas â'r diwydiant rasio a gofynnodd i Julie Harrington a yw'r diwydiant yn teimlo bod lefel bresennol y camau rheoleiddio hyn yn gywir.

Atebodd Julie Harrington mai'r rheswm am y camau rheoleiddio llym a gymerir mewn perthynas â'r diwydiant rasio ceffylau yw oherwydd pwysigrwydd cynnal tegwch ac atal twyll, yn ogystal â chysylltiadau agos y diwydiant rasio â'r diwydiant betio. Ychwanegodd fod cynnal hyder y defnyddiwr yn hollbwysig ac ni all y diwydiant fforddio colli'r hyder hwnnw. Os yw cwsmeriaid y diwydiant rasio yn credu nad yw'r cynnyrch y maent yn ei wylio/betio arno yn ddilys, a'i fod yn hytrach wedi'i ffugio, mae'n bosibl y byddant yn rhoi'r gorau i gefnogi'r diwydiant. Byddai hyn yn cael effaith andwyol yn ariannol ac yn effeithio ar gynaliadwyedd y diwydiant.

Dirwyn y cyfarfod i ben

Daeth Llyr Gruffydd AS â'r cyfarfod i ben am 12:50 i alluogi'r Aelodau i baratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn.